CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD A STAR:
Cofnodion Cyfarfod
7fed Mehefin 2023 yn Y Ganolfan, Penmynydd

YN BRESENNOL: Cyng., Dewi Gwyn (Cadeirydd),, Heulwen Owen, Janet Jones, Nia Jones, Owain Evans. Cynghorwyr Sirol : Dyfed Jones. Clerc: Gillian Morris	
1.	**YMDDIHEURIADAU** D.Idriswyn Roberts, Llinos Roberts, Selwyn Hughes, Sonia Williams, Robin Williams (Cynghorwyr Sirol)
2.	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3.	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 03/05/2023. Fe'i derbyniwyd fel rhai cywir. HO yn cynnig, DG yn eilio.
4.	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	Maes Chwarae, Star - Mae dyfynbris Playquest yn cynnwys £4500 ar gyfer cwblhau'r gwaith tir gan gwmni o Mostyn. Mae'r gwaith o ollwng y cyrb yn debygol o gostio £1200 yn ôl y Cyngor Sir. DG wedi bod mewn trafodaethau hefo contractwr lleol a 'di cael pris is er mwyn cwblhau'r holl waith. DG yn cynnig defnyddio cwmni William Owen i wneud y gwaith a defnyddio'r arian sy'n cael ei arbed i ddatblygu'r safle ymhellach. NJ a JJ yn eilio.
4.2	Hyfforddiant Defib - Clerc i gadarnhau dyddiad.
4.3	Hyfforddiant Cymraeg Un Llais - Dim ymateb swyddogol hyd yma, ond wedi derbyn adroddiad ar lafar gan Mel ab Owain yng nghyfarfod Môn bod Un Llais wedi derbyn grant i ariannu cyrsiau e-ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.
5.0	**Materion ariannol**
5.1	Cafwyd diweddariad gan y clerc ar y sefyllfa ariannol. Arian yn y banc, taliad cyflog. Trafodwyd i gyflog y Clerc gael ei sefydlu drwy ddebyd uniongyrchol.
5.2	HMRC/PAYE - Clerc wedi cael ymateb, taliadau cosb wedi cael ei ymneilltuo.
5.3	Datganiad Blynyddol 2022/2023 - Pawb yn cadarnhau eu bod yn hapus gyda'r datganiad blynyddol.
5.4	Cyflog Y Clerc - Yn dilyn arfarniad blynyddol ardderchog penderfynwyd ychwanegu 1 awr y mis i gontract y clerc. DG yn cynnig, pawb yn cytuno. Clerc yn derbyn.
5.5	Taliadau Cynghorwyr - Cynghorwyr angen arwyddo ffurflen os nad ydynt am dderbyn y lwfans.
6.0	**GOHEBIAETH CYNGOR SIR YNYS MÔN**
	Dim
7.0	**Ceisiadau Cynllunio**
7.1	Glyn, Ceint, Penmynydd - Tynnwyd yn ôl
8.0	**Gohebiaeth Ychwanegol**

9.0	**Materion Eraill**
9.1	Cadw Cymru'n Daclus: Prosiect Canolig (2024) Ceisiadau yn agor o fewn y pythefnos nesaf. DG am ymchwilio i beth sydd ar gael.
10.0	**EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF**
10.1	Rheolau Sefydlog Newydd.
10.2	Polisi'r Wasg.
10.3	Datganiad derbyn swydd Cadeirydd.
10.4	Polisi taliadau'r Clerc.
10.5	Agenda Dwyieithog.
10.6	Goryrru - casglu ffurflenni.
10.7	Digwyddiadau Cymunedol

Llofnod **Dyddiad**